

Y Filfyw: *Luzula campestris*

Robin Gwyndaf

Ail-argraffwyd o gylchgrawn Y Gwyddonydd, 21, Hydref 1983, 59-60



Pan welir dail y Filfriw,
Bydd byw yr eidion du.

A OES angen gwell enghraifft o ddywediad sy'n farddoniaeth ynddo'i hunan—yn 'cloi synnwyr mewn clysideb'? Fe'i clywais ar lafar gyntaf gan Lewis T. Evans (1882-1975), Cyffylliog, Clwyd, ond yn enedigol o Gefn-brith, Uwchaled: bardd a chynheilydd traddodiad nodedig iawn. Fel gŵr a fu'n byw mewn cymundeb agos a natur gydol ei oes gallai Lewis T. Evans dystio nid yn unig i hyfrydwch y geiriau hyn ond hefyd i'r gwirionedd a fynegir ynddynt. Roedd gweld y Filfriw yn arwydd pendant fod y gwanwyn gerllaw ac addewid am borfa i'r da wedi hirlwm y gaeaf. Y ffurf lenyddol ar yr enw yw Milfyw (neu y Filfyw), ond y Filfriw a glywir amlaf, o bosibl, ar lafar, o leiaf yn siroedd y Gogledd a'r Canolbarth. Cofnodwyd hefyd y ffurfiau: y Filfen a Milfri (y Filfri). Ond pa flodeuyn neu weiryw yw'r Filfyw? Dylai trigolion y wlad, ac yn arbennig amaethwyr, fod yn weddol gyfarwydd ag ef, er nad ydynt efallai yn cyfeirio ato wrth yr enw Cymraeg hwn. Brwynen neu weiryw bras, byr, ydyw, tua 4-6 modfedd o daldra, yn tyfu mewn unrhyw borfa, ond yn arbennig mewn tir sych, garw, megis gweunydd, rhosydd a ffriddoedd. Yr enw Lladin arno yw *Luzula campestris*, a'r enw mwyaf cyffredin arno yn Saesneg yw 'Field Woodrush'. Perthyn i deulu mwyaf niferus y brwyn (teulu *Juncaceae*). Gwelltfrwynen yw un o'r enwau Cymraeg mwyaf cyfarwydd arno, a'r enw Cymraeg a dderbyniwyd fel yr un safonol yn Enwau Planhigion, Gwasg Prifysgol Cymru, 1969, yw Coedfrwynen y Maes.

Fel y mae i'r frwynen flodau, felly hefyd y Filfyw—clwstwr o dri neu bedwar o flodau bychain, bras. Pan welir y Filfyw yn gynnar yn y gwanwyn, ym Mawrth neu Ebrill, y mae'r blodau'n llwyd-felyn eu lliw. gan lwch y pail, ond am weddill eu tymor, sef Mai-Mehefin, y maent yn llwyd tywyll iawn, a'r lliw llwyd-ddu hwn sy'n cael ei awgrymu yn yr enwau Saesneg a ganlyn: 'Sweep's Brush', 'Chimney Sweeps' a 'Good Friday Grass'.

Cyfeiria'r dywediad uchod at ddail y Filfyw. Y mae clwstwr o dair i chwech, ac weithiau fwy, o'r dail hyn, gan amlaf, ond nid dail yn ystyr arferol y gair ydynt, ond coesau fel glaswellt. Y mae blew man arnynt, ac yn ôl rhai geiriaduron a llysieulyfrau, un enw pellach ar y Filfyw yw Brwynen Flewog y Maes. Y mae'r enw hwn yn ein hatgoffa o frwynen arall o'r un teulu, sef *Luzula pilosa*—y Goedfrwynen Flewog neu Frwynen Flewog Lydanddail ('Hairy Woodrush'). Yn yr un teulu hefyd ceir y Frwynen Droellgorun (*Juncus squarrosus*, 'Heath Rush') — y gweirynd caled hwnnw sy'n tyfu'n bennaf ar rosydd ac sydd fel pe'n 'troelli' wrth i'r bladur geisio'i dorri— yn union fel y mae gwallt rhai ohonom yn mynnu troelli ar y corun, megis llyfiad buwch neu lyfiad llo ar dalcen!

Y mae'r Filfyw, y Goedfrwynen Flewog a'r Frwynen Droellgorun yn tyfu'n helaeth ar ucheldir Hiraethog, a cheir cyfeiriad diddorol at y Frwynen Droellgorun mewn hen bennill nas clywais yn unman arall hyd yn hyn ond gan Lewis Evans ac un neu ddau arall o Fro Hiraethog:

Lladd y gwair a'r bladur blwm,
Ar rosydd llwm mynyddig,
Troell y corun yn galed iawn
A'r wana'n llawn o gerrig;
Ni chawn arfod yn fy myw
Gan fonau'r eithin Ffrengig.

Pan ddeuai'r adeg i droi rhai o'r da, megis y gwartheg hesbion, yr heffrod a'r bustych, allan ym mis Ebrill i 'fyw ar eu dannedd', fel y dywedid mewn rhai ardaloedd, yr oedd gweld y Filfyw yn arwydd i'r amaethwr fod digon o faeth yn y borfa, er byrred ydoedd. Mor falch oedd pobl o'i gweld fel yr oedd yn arferiad pur gyffredin gynt i'w thorri a'i chwifio'n uchel mewn gorfoledd, gan lefaru geiriau tebyg i'r rhai uchod a gofnodwyd gan Lewis Evans. Dyma rai amrywiadau a gafwyd ar y dywediad mewn gwahanol ardaloedd:

Yr eidion du bydd fyw,
Mi welais y Filfyw/Filfriw. (Arfon)

Cwyd yr eidion a bydd fyw,
Heddiw y ganed y Filfyw. (Ganllwyd, Meir.)

Eidion bydd fyw,
Ganed y Filfyw. (Dyffryn Banw, Mald.)

Ha, ganed y Filfen,
Bydd fyw yr ychen. (Penegoes, Mald.)

Gweirynd arall sy'n ymddangos yn gynnar yn y gwanwyn tua'r un adeg a'r Filfyw yw'r Penllwydyn, neu fel y'i gelwir weithiau gydag anwyldeb mewn rhai ardaloedd, y Benllwyd Bach (*Eriophorum angustifolium*, 'Common Cotton Grass'). Y mae'n fwy

adnabyddus, efallai, wrth yr enw Plu'r Gweunydd. Enw hyfryd arall arno yn Gymraeg yw Sidan y Waun. Yr oedd gweld Penllwydyn cyntaf y Gwanwyn hefyd yn destun llawenydd, fel y tystiodd Mrs. M. Davies, Nant Peris, yn fyw iawn yn ei llythyr at y Dr. Iorwerth C. Peate, dyddiedig 9:vii:42 (un o nifer helaeth o lythyrau a dderbyniodd y flwyddyn honno yn sgil ei ymholiad yn Y Cymro a'r Faner ynghylch y Filfyw, Llsgau. AWC 55-78).

Mae yna dyddyn yn fy ymyl lle y cedwir rhyw dair o wartheg godro, byddaf yn galw yno yn achlysurol ar hyd y blynyddoedd, a'r tro dan sylw gelwais yno ar ddiwrnod heulog tua diwedd mis Ebrill, a phan yn cychwyn yn ôl, dyma yr hen chwaer yn dweud wrthyf: 'Rhoswch i mi gael fy ffon, fe ddof gyda chwi i'r cae porfa i edrych a ydyw y Benllwyd Bach wedi dod allan.' Ac wedi cyrraedd y fan dyma hi yn chwilio yn y glaswellt, ac ymhen ychydig dyma hi yn gweiddi yn rhyw orfoleddus: 'dyma hi, fe gaiff yr eidion du ddigon o borfa bellach.'

A dyma ddyfyniad o un llythyr arall a anfonwyd at Iorwerth C. Peate, 5 Gorff. 1942, yn son y tro hwn am y Filfyw a'r Penllwydyn. Yr awdur yw Ifor Edwards, Siop y Llan, Llanuwchllyn:

Gwelais eich ymfyniad yn Y Cymro ynghylch planhigyn o'r enw y Filfyw, neu yn ôl llafar gwlad Llanuwchllyn, y Fulfriw. Gwn am yr arferiad o lawenychu wrth weld y Fulfriw am y tro cyntaf. Roeddwn yn digwydd bod gyda fy Nhaid (Tomos Williams, Tyddynronnen) ryw flwyddyn pan welodd y Fulfriw am y tro cyntaf y flwyddyn honno. Pigodd y blodyn i fyny a dyma fo'n bloeddio gan droi y blodyn gylch ei ben:

Bydd byw eidion,

Gwelais y Fulfriw.

Wedyn byddai yn ei roi yn ei gap neu lapel ei got. Byddai yn mynd drwy yr un seremoni pan welai Benllwydyn (neu Blu Gweunydd pan dyfant i'w llawn dwf) a bloeddio:

Bydd byw eidion,

Gwelais Benllwydyn.

Fe ellid, wrth gwrs, ddehongli'r enw Milfyw fel gair sydd ynddo'i hunan yn cyfleu ystyr y dywediad y buom yn ei drafod. 'Mil' yn golygu anifail, fel yn mil-feddyg. Felly mil-fyw: anifail-bydd fyw. Tybed ai dyma un rheswm paham fod yr enw hwn yn cael ei gysylltu weithiau a dau flodyn arall?

Un ohonynt yw Llygad Ebrill (*Ranunculus ficaria*), yn Saesneg 'Pilewort' neu 'Lesser Celandine'. Y mae'r enwau Cymraeg sydd ar y blodyn hwn mewn gwahanol ardaloedd yn niferus iawn. Dyma rai ohonynt: Seren y Gwanwyn, Aur Bach y Gwanwyn, Melyn y Gwanwyn, Mil Melyn y Gwanwyn, Bronwys Melyn y Gwanwyn, Gwenith y Ddaear, Gwenith y Gog, 'Dail y Peils, Y Fronwys, Llysiâu'r Bronau, Y Fywlys, a Llygad y Dyniawed (llo blwydd yw dyniawed wrth gwrs, ac y mae'r enw hwn yn llawer mwy ystyrllon na'r enw Llygad y Diniwed a fathwyd, o bosibl, drwy gamgydweddiad a'r gair dyniawed).

Y mae rhai o'r enwau ar Lygad Ebrill yn dangos fel y bu peth cymysgu rhwng y blodyn hwn a blodyn arall y cyfeirir ato mewn amryw eiriaduron fel y Filfyw, sef *Scrophularia nodosa*, yn Saesneg 'Figwort'. Melyn y Gwanwyn yw'r enw Cymraeg mwyaf cyffredin ar hwn. Enwau eraill arno yw Dail Duon Bach, Dail Duon Da, Gorneth, Goreunerth, a Gwenith y Gog. Planhigyn tal—hanner llath i ddwy droedfedd—yw Melyn y Gwanwyn, gyda blodau bychain llwytaidd, digon diolwg, ac arogl braidd yn anhyfryd arnynt. Prin y byddai'r gweirynt hwn yn denu unrhyw eidion i'w fwyta.

Fel y dangoswyd yn amlwg gan yr ymateb a fu i ymholiadau'r Dr. Peate yn y wasg yn 1942, a chyn hynny gan lysieuwyr a oedd yn Gymry Cymraeg, megis y Dr. J. Lloyd Williams, nid oes amheuaeth bellach nad *Luzula campestris* (Gwelltfrwynen neu Goedfrwynen y Maes, 'Field Woodrush') yw'r gweirynd a adwaenir ar lafar gwlad fel y Filfyw neu'r Filfriw. Gwell yw peidio ag arfer yr enw wrth son am y ddau blanhigyn arall—Llygad Ebrill a Melyn y Gwanwyn—rhag creu cymysgwch, fel y gwnaed mewn nifer o eiriaduron a llyfrau llysiuol, a hynny mor ddiweddar a 1969 yn Enwau Ptanhigion, Gwasg Prifysgol Cymru, lie rhoddir Melyn y Gwanwyn a Milfyw yn enwau Cymraeg ar 'Figwort'.

(Cyhoeddwyd yr ysgrif uchod hefyd yn Y Bedol, Medi 1982, fel rhan o'r gyfres 'Llên a Llafar Bro Hiraethog'.)